# Crynodeb Gweithredol

## Mae Mynediad a Chynhwysiant ymhlith ein blaenoriaethau pennaf i gyflawni'n dyletswyddau statudol

1.1 Mae gwasanaethau cyfathrebu digidol, megis band eang, ffonau symudol a theledu digidol, yn chwarae rôl gynyddol bwysig yn y ffordd y mae llawer o ohonom yn cadw mewn cysylltiad, yn dysgu, chwarae, siopa ac yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus.

1.2 Mae'r gost o ddarparu rhwydweithiau cyfathrebu yn dueddol o olygu bod rhai bylchau mewn dalgylchoedd daearyddol yn anochel pan mae eu datblygiad yn cael ei adael ar draul y farchnad yn unig. Mae rhwystrau rhag manteisio ar wasanaethau a defnydd effeithiol ohonynt (megis cost, fforddiadwyedd, neu ddiffyg sgiliau neu wasanaeth / offer defnyddiadwy) hefyd yn golygu bod rhai dinasyddion a defnyddwyr mewn perygl o gael eu hallgau rhag y buddiannau a ddaw yn sgil y gwasanaethau hyn.

1.3 Mynediad a Chynhwysiant – sicrhau bod gan bob dinesydd, beth bynnag fo'u hoed, incwm, lleoliad, addysg neu anabledd fynediad at wasanaethau cyfathrebu digidol a'u bod yn gallu eu defnyddio – felly yw un o'r prif feysydd blaenoriaeth wrth gyflawni'n dyletswydd i hybu buddiannau dinasyddion o ran materion cyfathrebu.[1]

1.4 Fis Mawrth eleni cyhoeddwyd ein hymgynghoriad *Mynediad a Chynhwysiant – Cyfathrebiadau Digidol i bawb* (yr 'Ymgynghoriad') a oedd yn gwahodd sylwadau ar waith Mynediad a Chynhwysiant Ofcom.[2]

## Yr oedd rhanddeiliaid ar y cyfan yn cefnogi'n hymagwedd

1.5 Cafwyd adborth gan 40 o randdeiliaid,[3] ac yr oeddent at ei gilydd yn cytuno ac yn cefnogi'n hymagwedd tuag at Fynediad a Chynhwysiant a'r meysydd blaenoriaeth a amlygwyd.

1.6 Yr oedd mwyafrif y sylwadau a gafwyd yn ymwneud ag elfennau penodol ar y gwaith Mynediad a Chynhwysiant sydd ar waith. Yr ydym yn edrych ar hyn fel arwydd gan randdeiliaid y dylem fod yn canolbwyntio'n hymdrechion yn y datganiad hwn ar y cynnydd a wnaethpwyd gennym ers yr Ymgynghoriad a sut yr ydym wedi cadw eu hadborth mewn cof.

---

1 Gweler Cynllun Blynyddol Ofcom 2008/9.
(http://www.ofcom.org.uk/about/accoun/reports_plans/annual_plan0809/statement/annplan0809.pdf ) a Chynllun Blynyddol drafft 2009/10
(http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/draftap0910/summary/ )

2 http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/access/access/

3 http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/access/access/responeses/

## Mae gennym amrediad eang o ddyletswyddau sy'n gysylltiedig â Mynediad a Chynhwysiant

1.7 Mae Deddf Cyfathrebu 2003 ('y Ddeddf') yn rhoi'r ddyletswydd gyffredinol arnom i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr o ran gwasanaethau cyfathrebu. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon mae'n ofynnol ein bod yn sicrhau argaeledd amrediad eang o gyfathrebiadau electronig, gwasanaethau teledu a radio ledled y DU[4].

1.8 Wrth gyflawni'n dyletswyddau, mae'n ofynnol hefyd ein bod yn ystyried anghenion pobl hŷn, rhai ag anableddau a rhai ar incwm isel.[5] Mae gennym bwerau i weithredu rhwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol i sicrhau buddiannau defnyddwyr. Mae dyletswydd arnom hefyd i lunio codau ymarfer i ddiogelu ac i hybu dealltwriaeth a mwynhad o raglenni teledu i bobl a nam ar eu golwg neu'u clyw drwy ddefnyddio isdeitlau neu ddisgrifiadau sain.

1.9 Yn y mannau hynny lle nad oes gennym bwerau statudol i gyflawni'n dyletswyddau o dan y Ddeddf, yr ydym yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid i wneud cyfraniad. Yr ydym, er enghraifft, yn cyflawni'n dyletswydd i hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau drwy gyfrannu cynlluniau ymchwil ac arbenigedd at gynlluniau a gynhaliwyd gan y llywodraeth, y diwydiant a'r sector gwirfoddol.

## Yr ydym yn cymryd gofal i weithredu'n pwerau a'n hadnoddau yn y modd mwyaf effeithiol

1.10 Mae ein dyletswyddau statudol yn golygu bod gennym amrediad eang o ystyriaethau Mynediad a Chynhwysiant i'w hystyried ac yr ydym yn ymwybodol iawn o'r her a ddaw yn eu sgil. Rhaid i ni sicrhau cydbwysedd rhwng buddiannau a chostau'n gweithgareddau rheoleiddiol, a bod yn bendant ynghylch ein rôl a rôl polisi cyhoeddus. Ein nod yw defnyddio'n hadnoddau'n briodol a gweithio â sefydliadau eraill pan mae hynny'n briodol i gyflawni'r buddiannau mwyaf posibl i'r dinesydd a'r defnyddiwr.

1.11 Wrth ystyried cynlluniau Mynediad a Chynhwysiant yr ydym yn defnyddio'r fframwaith canlynol i bennu blaenoriaethau:

- Byddwn yn asesu a oes bylchau sylweddol yn argaeledd daearyddol y gwasanaethau hyn, a oes ystyriaethau sy'n atal pobl rhag eu defnyddio neu sy'n creu rhwystrau sylweddol rhag eu defnyddio'n effeithiol.

- Byddwn yn ystyried pa wasanaethau sydd bwysicaf o safbwynt Mynediad a Chynhwysiant, yn seiliedig ar sut maent yn helpu i hwyluso cyfranogiad uwchlaw gwasanaethau cyfathrebu eraill.

- Byddwn hefyd yn ystyried a yw mwyafrif y boblogaeth yn defnyddio'r gwasanaeth i gyfranogi mewn cymdeithas ac a fyddai'n golygu bod y sawl sydd heb fynediad ato mewn perygl o gael eu hallgau.

[4] Adran 3(2) Deddf Cyfathrebu 2003.
[5] Adran 3(4) y Ddeddf.

1.12 Yn seiliedig ar y meini prawf hyn, yr ydym wedi awgrymu'r meysydd blaenoriaeth canlynol ar gyfer ein gwaith Mynediad a Chynhwysiant cyfredol yn ein Hymgynghoriad:

1. Y niferoedd sy'n manteisio ar fand eang a Chyfranogiad Digidol;
2. Argaeledd band eang;[6]
3. Gwasanaethau i bobl anabl;
4. Yr Ymrwymiad Gwasanaeth Cyffredinol (USO) presennol;
5. Llythrennedd yn y Cyfryngau; a
6. Trawsrwydweithio symudol mewn argyfwng.

1.13 Mae rhai o'r blaenoriaethau hyn, megis argaeledd band eang a'r niferoedd sy'n manteisio arno'n rhan o ddadleuon polisi cyhoeddus pwysig ac maent yn cynnwys rhaglenni gweithredu eang sy'n berthnasol i nifer o randdeiliaid, gan ein cynnwys ni.

1.14 Mae eraill, megis y trawsrwydweithio symudol mewn argyfwng (999/112) yn cael eu cyfrif fel prosiectau llai ac ar wahân, ond er hynny maent yn arwain at fuddiannau pwysig i ddefnyddwyr. Rydym wedi nodi trawsrwydweithio symudol mewn argyfwng yn flaenoriaeth uchel, gan ei fod yn fater o ddiogelwch bywyd.

1.15 Yn ogystal â'r blaenoriaethau a nodwyd gennym yn yr Ymgynghoriad yr ydym yn ystyried cwmpas signal ffonau symudol a radio digidol fel dau faes sy'n debygol o gynyddu yn eu pwysigrwydd yn y dyfodol agos.

1.16 Edrychom ar y broblem o 'ardaloedd digyswllt' symudol ac ansawdd rhwydweithiau symudol fel rhan o'n Asesiad o'r Sector Symudol[7] ym mis Gorffennaf ac rydym yn cychwyn ar waith ymhellach yn y maes yma.

1.17 Roedd y Llywodraeth wedi clustnodi'r trawsnewidiad o wasanaethau radio i'r digidol erbyn 2015 yn ei Bapur Gwyn Prydain Ddigidol.[8]

## Ar y cyd â'n rhanddeiliaid yr ydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ein meysydd blaenoriaeth

1.18 Mae chwe mis wedi mynd heibio ers i ni gyhoeddi'r Ymgynghoriad ac mae'n gwaith Mynediad a Chynhwysiant wedi gwneud cynnydd sylweddol, yn enwedig o ran trawsrwydweithio mewn argyfwng a'r nifer sy'n manteisio ar fand eang.

---

6 Yn ein Hymgynghoriad yr oeddem wedi grwpio 'Argaeledd band eang' 'Niferoedd sy'n manteisio ar fand eang' o dan un flaenoriaeth; fodd bynnag, o ystyried pwysigrwydd ein gwaith yn y ddau faes yr ydym yn awr yn eu trafod ar wahân.

7 Mae'r ymgynghoriad ar gael yn http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/msa/

8 Prydain Ddigidol – Adroddiad Terfynnol, Mehefin 2009, Pennod 3b – Radio: Troi'n Ddigidol http://www.culture.gov.uk/images/publications/digitalbritain-finalreport-jun09.pdf

1.19 Yr ydym yn arbennig o falch o gyhoeddi bod trawsrwydweithio symudol mewn argyfwng (999/112) bellach ar gael yn y DU. Yn dilyn peilot llwyddiannus fe lansiwyd y gwasanaeth yn genedlaethol ar 14 Hydref 2009.

1.20 Mae Papur Gwyn Prydain Ddigidol y Llywodraeth [9] wedi'i gyhoeddi ac mae'n amlinellu mewn mwy o fanylder flaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer Cyfathrebiadau Digidol ac mae'n rhoi i ni'r dasg benodol o arwain Consortiwm o Randdeiliaid i hyrwyddo Cyfranogiad Digidol.

1.21 Yr ydym yn amlinellu isod y cynnydd diweddaraf a wnaethpwyd yn ein meysydd blaenoriaeth ynghyd â'r gwaith pellach yr ydym wedi ymgymryd ag ef.

## 1. Y defnydd o Fand Eang a Chyfranogiad Digidol: yr ydym yn arwain Consortiwm i hyrwyddo Cyfranogiad Digidol

1.22 Mae gan y mwyafrif o unigolion a busnesau yn y DU gysylltiad rhyngrwyd band eang erbyn hyn, ond mae lleiafrif sylweddol o aelwydydd yn parhau heb Ryngrwyd yn eu cartref (tua 27 y cant o boblogaeth oedolion y DU neu tua 13m o bobl oedran 15+).[10]Aethom ati i gomisiynu ymchwil fanwl i ganfod gwell ddealltwriaeth o'r rhesymau pan nad yw'r farchnad hyn wedi manteisio ar fand eang a'r gyrwyr posib a fyddai'n annog newid.[11]

1.23 Dangosodd fod bron dau o bob deg oedolyn sydd heb gysylltiad rhyngrwyd yn eu cartref ar hyn o bryd yn bwriadu ei gael o fewn y chwe mis nesaf. Fodd bynnag, dywedodd 42 y cant mai eu prif reswm dros beidio cael y rhyngrwyd yn eu cartref yw diffyg diddordeb neu angen, nododd y lleill resymau ariannol neu adnoddau.

1.24 Yr ydym wedi rhannu'n hymchwil yn eang yn y DU a chyda'n cymheiriaid rhyngwladol. Mae hefyd yn sail i'n gwaith ar Gyfranogiad Digidol, a cheir disgrifiad ohono isod.

1.25 Ar 29 Ionawr 2009, gofynnodd Adroddiad Prydain Ddigidol y Llywodraeth i ni ffurfio Gweithgor Llythrennedd yn y Cyfryngau, yn cynnwys nifer o randdeiliaid, er mwyn awgrymu diffiniad newydd o lythrennedd yn y cyfryngau a chreu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Lythrennedd yn y Cyfryngau.[12] Ffrwyth gwaith y grŵp hwn oedd Adroddiad Gweithgor Llythrennedd yn y Cyfryngau Prydain Ddigidol[13] a argymhellodd ymagwedd strategol a chydlynus i hyrwyddo Cyfranogiad Digidol, h.y. y nifer sy'n manteisio, y defnydd a wneir a dealltwriaeth o dechnoleg ddigidol. Yn fwyaf arbennig argymhellodd y Grŵp y dylid ffurfio Consortiwm i yrru Rhaglen Farchnata Gymdeithasol ac Allgymorth wedi'i Dargedu.

1.26 Cymeradwywyd y cynigion hyn gan y Llywodraeth yn y Papur Gwyn Prydain Ddigidol a ofynnodd i Ofcom sefydlu ac arwain y Consortiwm.[14] Mae dros 50 o sefydliadau gan gynnwys y BBC, BSkyB, BT, Channel 4, Google, Microsoft,

---

[9] [9]http://www.culture.gov.uk/what_we_do/broadcasting/6216.aspx
[10] Canlyniadau Arolwg Olrhain Cyfathrebiadau Ofcom, C1 2009.
[11] Cyhoeddwyd y gwaith ymchwil ar 10 Mehefin a gellir ddod o hyd iddo: http://www.ofcom.org.uk/research/telecoms/reports/bbresearch/bbathome.pdf
[12] Prydain Ddigidol – Yr Adroddiad Interim tud 69
[13] http://www.ofcom.org.uk/advice/media_literacy/media_lit_digital_britain/
[14] http://www.culture.gov.uk/images/publications/chpt2_digitalbritain-finalreport-jun09.pdf

y Grŵp Band Eang Symudol a Research in Motion (Blackberry) wedi cytuno mewn egwyddor i fod yn aelodau o'r Consortiwm. Bydd y Consortiwm yn parhau i gydweithio'n agos â chynlluniau eraill yn y maes megis gwaith Martha Lane Fox - yr Hyrwyddwr Cynhwysiant Digidol a'r Tasglu Cynhwysiant Digidol, yr adolygiad Sgiliau Byw Digidol, UKCCIS a Bod yn Ddiogel Ar-lein.

1.27 Bydd y Consortiwm yn cael ei lansio'n ffurfiol ar 15 Hydref 2009, a chynhelir ei gyfarfod cyntaf ar 1 Rhagfyr 2009.

## 2. Argaeledd band eang: yr ydym yn gweithio â'r Llywodraeth i sicrhau bod band eang ar gael i'r graddau mwyaf posibl ledled y DU

1.28 Yn amlwg nid yw dinasyddion yn gallu manteisio ar wasanaethau band eang os nad ydynt ar gael yn eu hardaloedd. Nid oes gan Ofcom bwerau yn y maes yma mewn perthynas â gwasanaethau band eang. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth wedi dangos y pwyslais mae'n ei roi ar argaeledd band eang drwy gynnig Ymrwymiad Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang yn ei Bapur Gwyn Prydain Ddigidol.

1.29 Yn unol â'n dyletswyddau, rydym hefyd o'r farn bod argaeledd a defnydd o fand eang o'r pwys mwyaf i ddefnyddwyr a dinasyddion o gofio'r buddiannau y byddent yn eu colli fel arall.

1.30 Yr oedd rhanddeiliaid yn cytuno'n gryf â phwysigrwydd ein hagenda Mynediad a Chynhwysiant. Fodd bynnag, mynegodd rhai pryderon am nad ydynt yn credu bod targed y Llywodraeth o fand eang 2Mbit/yr eiliad i bawb yn un digon uchelgeisiol, gan bwysleisio pwysigrwydd cadw targedau gwasanaeth cyffredinol yn gyfoes. Mae'n werth nodi bod y targed 2Mbit/yr eiliad wedi'i bennu ar gyfer 2012, ac mae'r Llywodraeth wedi datgan yn glir y bydd y tared yn datblygu.

1.31 Gofynnodd y Gweinidogion i Ofcom ddarparu cymorth a chyngor technegol ar gyfer y targed 2 Mbit/yr eiliad, ac yr ydym wedi gwneud. Yr ydym hefyd wedi ymrwymo i weithio â'r Llywodraeth i ddarparu cyngor technegol ar ei chynllun 'Final Third' ar gyfer argaeledd eang o fand eang cyflym iawn yn dilyn cymeradwyaeth y Senedd.

1.32 Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r rhwydweithiau ar gyfer y genhedlaeth bresennol o fand eang yn cael ei ddarparu gan y farchnad. Yn ogystal mae chwaraewyr mawr megis Virgin Media a BT yn cyflwyno band eang cyflym iawn. Mae gennym rôl bwysig i ddarparu'r sicrwydd rheoleiddiol sydd angen ar fusnesau i wneud penderfyniadau fuddsoddi, ac i sicrhau bod defnyddwyr yn dal i elwa ar yr arloesed a dewis gwirioneddol trwy gystadleuaeth. Dyw ein gwaith yn y maes, e.e. drwy ein hadolygiad cynhwysfawr parhaus o'r farchnad band eang cyfanwerthol a'n datganiad yn gynharach yn y flwyddyn ar Fand Eang Cyflym Iawn[15], ddim yn dod o dan ymbarél Mynediad a Chynhwysiant, ond maent dal yn gwneud cyfraniad pwysig i argaeledd a fforddiadwyedd gwasanaethau.

[15] http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/nga_future_broadband/statement/

## 3. Gwasanaethau i ddefnyddwyr anabl: yr ydym yn adolygu mynediad at wasanaethau teledu a'r gwasanaeth 'cyfnewid testun' o dan yr USO, i sicrhau eu bod yn cyflawni'u diben mewn marchnad sy'n newid

1.33 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried anghenion defnyddwyr anabl. Yr ydym yn cymryd y ddyletswydd hon o ddifrif ac yr ydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl anabl yn gallu manteisio ar wasanaethau cyfathrebu, a hynny, i'r graddau posibl, ar yr un telerau â defnyddwyr eraill.

1.34 Ein dyletswyddau penodol o ran y gwasanaethau ar gyfer pobl anabl yw:

- sicrhau mynediad at wasanaethau teledu, teletestun a chanllawiau rhaglennu electronig i bobl â nam ar eu golwg a'u clyw.
- cymryd mesurau i sicrhau bod defnyddwyr anabl yn mwynhau'r un mynediad at yr un gwasanaethau ffôn ag sydd ar gael i'r cyhoedd, yn enwedig drwy ddarpariaeth gwasanaethau cyfnewid fel rhan o'r USO.

Gwasanaethau Mynediad Teledu

1.35 Mae Ofcom yn sicrhau bod darlledwyr yn darparu is-deitlo, iaith arwyddion a disgrifiad sain mewn cyfran benodol o raglenni [16]i alluogi pobl â nam synhwyraidd i fwynhau profiad teledu gwell drwy'r 'Côd Gwasanaethau Mynediad Teledu'.

1.36 Ym mis Medi, roeddem wedi cyhoeddi ymgynghoriad i adolygu'r Côd hwn.[17] Yn yr ymgynghoriad, rydym o'r farn bod y Côd Gwasanaethau Teledu yn dal i sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng buddiannau i ddefnyddwyr a'r baich ariannol ar sianeli teledu.

1.37 Mae nifer o randdeiliaid wedi dweud wrthym y dylem fod yn ystyried dyfodol Gwasanaethau Mynediad Teledu ar adeg pan mae mynediad at gynnwys darlledu drwy'r rhyngrwyd a rhaglennu ar-alw'n dod yn fwy cyffredin.

1.38 Mae Ofcom yn cydnabod bod mynediad ar-alw at gynnwys yn dod yn fwy a mwy poblogaidd. Fodd bynnag, ni ellir edrych ar wasanaethau mynediad fel rhan o'r adolygiad o Wasanaethau Mynediad Teledu cyfredol gan nad yw'r Ddeddf yn rhoi pwerau i ni i orfodi darparwyr Fideo Ar-alw i ddarparu gwasanaethau mynediad.

1.39 Fodd bynnag, mae Cyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clywedol Senedd Ewrop sy'n dod i rym ddiwedd 2009 yn ymestyn rheoleiddio darlledu i gynnwys fideo Ar-alw, ac mae'n cynnwys gofyniad ar Aelod Wladwriaethau i:

[16] Mae disgrifiad sain yn sylwebaeth ychwanegol ar raglenni teledu sy'n disgrifio'r hyn sy'n digwydd ar y sgrîn, iaith y corff a mynegiant wynebau rhwng deialog y rhaglen. Wedi'i gynhyrchu'n unswydd ar gyfer pob rhaglen, mae'n galluogi pobl sy'n cael anhawster gweld y teledu i glywed yr hyn na allant ei weld.

[17] http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/access_services/; mae'r ymgynghoriad ar agor tan 12 Tachwedd 2009.

"annog darparwyr gwasanaethau cyfryngau o dan eu hawdurdodaeth i sicrhau bod eu gwasanaethau'n raddol ddod yn hygyrch i bobl ag anawsterau gweld neu glywed"[18]

1.40 Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi gofyn i Ofcom weithio ar hyn ac yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf byddwn yn cwrdd â darparwyr Fideo Ar-alw i glywed eu cynlluniau yn y maes hwn.[19]

1.41 Bydd ein hymgynghoriadau ar Wasanaethau Mynediad Teledu a Fideo Ar-alw'n agored tan 12 Tachwedd a 26 Hydref 2009 yn y drefn honno.

## Adolygiad o'r Gwasanaeth Cyfnewid Testun

1.42 Mae cyfnewid testun yn wasanaeth a ddefnyddir gan bobl fyddar, pobl drwm eu clyw a phobl â nam ar eu lleferydd (y cyfeirir atynt yma er byrdra fel pobl â 'nam ar eu clyw') i wneud galwadau ffôn. Mae'n defnyddio cynorthwyydd cyfnewid mewn canolfan alwadau, sy'n teipio'r hyn a ddywed y person sy'n clywed ac yn lleisio'r hyn mae'r person â nam ar ei glyw'n ei deipio. Mae BT ar hyn o bryd yn darparu'r gwasanaeth cyfnewid testun yn y DU fel rhan o'i rwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol.

1.43 Dywed rhanddeiliaid wrthym eu bod yn teimlo bod adolygiad o'r gwasanaethau cyfnewid testun yn bwysig, ond yn annigonol. Oherwydd pwysigrwydd cynyddol y rhyngrwyd, dywedodd llawer wrthym fod mynediad at, a defnyddioldeb gwasanaethau ar-lein o bwys cynyddol.

1.44 Fel rhan o'n hadolygiad o weithredu'r gwasanaeth cyffredinol, mae Ofcom yn ystyried ffyrdd o wella'r gwasanaeth cyfnewid testun cyfredol, yng ngoleuni datblygiadau technegol. Yr ydym yn ystyried a ddylai Cyfnewid Testun ddatblygu'n sylweddol i ddarparu gwasanaethau uwch fel teleffoni â chapsiynau.[20]

1.45 Ym mis Gorffennaf 2009, cyhoeddwyd adroddiad annibynnol gennym gan Plum Consulting[21] a oedd yn awgrymu bod galw ymhlith defnyddwyr am wasanaethau cyfnewid ychwanegol ac y byddai'r rhain yn debygol o helpu i sicrhau effeithlonrwydd pellach i bobl â nam ar eu clyw / lleferydd mewn gweithleoedd a mwy o gynhwysiant cymdeithasol. Mae hyn yn gyfraniad gwerthfawr at ein dealltwriaeth o'r gwerth cymdeithasol a allai fod ynghlwm wrth wasanaethau cyfnewid testun.

1.46 Yr ydym yn parhau i wneud gwaith pellach ar wasanaethau ar gyfer defnyddwyr anabl ym mhob maes o gyfathrebiadau. Er enghraifft, yr ydym wedi comisiynu ymchwil i edrych sut y mae pobl â nam ar eu symudedd yn defnyddio gwasanaethau cyfathrebu a beth yw'r rhwystrau maent yn eu hwynebu. Yr ydym hefyd yn cydweithio â Chymdeithas Cysylltiadau'r Cwsmer (mudiad ar gyfer y diwydiant canolfannau galw) i gynhyrchu a hyrwyddo canllawiau defnyddiol ar gyfer rhyngweithio staff canolfannau galwadau â

[18] Erthygl 3c o Gyfarwyddeb 2007/65/EC o Senedd Ewrop a'r Cyngor
[19] Cyhoeddom Ymgynghoriad ar ein Cynnigion ar gyfer reoleiddio gwasanaethau fideo-ar-alw ar 14 o Fedi 2009. Bydd yr Ymgynghoriad ar agor tan 26 Hydref 2009. http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/vod/vod.pdf
[20] Mae teleffoni â chapsiynau'n caniatáu i'r defnyddiwr wrando ar yr hyn mae'r person arall yn ei ddweud a darllen capsiynau'n unionsyth bron o'r hyn sy'n cael ei ddweud ac mae cyfnewid Fideo'n caniatáu cyfathrebu dros ffonau fideo.
[21] http://www.ofcom.org.uk/research/telecoms/reports/voice_telep/

phobl anabl. Byddwn yn cynnwys diweddariad ar y gwaith pellach hwn yn ein hadroddiad Profiad y Defnyddiwr ym mis Rhagfyr.

### 4. Y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) presennol: Yr ydym yn adolygu buddiannau a chostau gweithredu presennol yr USO

1.47 Diffinnir cwmpas y gwasanaeth cyffredinol gan Gyfarwyddeb Gwasanaeth Cyffredinol y Comisiwn Ewropeaidd.[22] Mae dyletswydd felly ar yr Ysgrifennydd Gwladol yn y DU i amlinellu'r gofynion cyffredinol sy'n rhaid eu darparu fel Gwasanaethau Cyffredinol yn y DU. Cafodd y gofynion hyn eu hamlinellu diwethaf yn 2003.[23]

1.48 Ar hyn o bryd, rhaid bod o leiaf un darparwr dynodedig yn ateb pob cais rhesymol am fynediad at linell sefydlog, a chyflawni darpariaethau o ran cyfeiriaduron, gwasanaethau ymholiadau cyfeiriadur, ffonau talu cyhoeddus, tariffau cymdeithasol, opsiynau bilio a thaliadau a gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr anabl. Yr ydym yn gyfrifol am weithredu'r gofynion a bennir gan y Llywodraeth, ac am sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni. Yr ydym yn gwneud hyn drwy osod amodau penodol (y Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyffredinol) ar BT a Kingston Communications, sydd wedi'u dynodi fel y darparwyr gwasanaeth cyffredinol.

1.49 Nid yw gwasanaethau band llydan wedi'u cynnwys ar hyn o bryd o fewn cwmpas yr USO o dan y Gyfarwyddeb Gwasanaeth Cyffredinol na Gorchymyn Gwasanaeth Cyffredinol y DU. Pe bai hynny'n newid, byddwn yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu, yn unol â'n cyfrifoldebau o dan y Ddeddf.

1.50 Cyn hir byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad ar adolygu gweithredu'r USO, a fydd yn amlinellu fframwaith arfaethedig ar gyfer yr adolygiad. Wrth wneud byddwn yn asesu pwrpased yr oblygiadau yn cymryd i ystyriaeth lefel y baich y mae'r rhwymedigaeth bresennol yn ei roi ar y darparwyr USO cyfredol - a'r gwerth y mae'r USO yn ei roi i gymdeithas yn gyffredinol. Rydym hefyd yn bwriadu ystyried cyllido a chaffael posibl ar gyfer y cynllun os gwelwn fod baich annheg yn cael ei osod ar y darparwyr USO o ganlyniad i ddarparu'r USO.

### 5. Llythrennedd yn y Cyfryngau: Yr ydym yn gweithio â rhanddeiliaid i hyrwyddo gwell dealltwriaeth o wasanaethau cyfathrebu

1.51 Mae ein dyletswydd i hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau (adran 11 y Ddeddf) yn golygu ei bod yn ofynnol i ni sicrhau gwell dealltwriaeth o natur cynnwys ymhlith y cyhoedd, sut mae'n cael ei ddethol a'i ddarparu a sut y gellir ei reoli a'i reoleiddio. O dan adran 14 (6a) y Ddeddf mae dyletswydd arnom i wneud trefniadau i ymgymryd ag ymchwil i'r materion a amlinellir yn adran 11 (1).

1.52 Mae ein gwaith yn y maes hwn yn cynnwys hysbysu a grymuso pobl i reoli eu gweithgarwch eu hunain yn y cyfryngau, drwy hyrwyddo strategaethau arfau technegol a gwybodaeth am gynnwys. Yr ydym yn gwneud hyn mewn

---

[22] Gellir darllen testun y Gyfarwyddeb Gwasanaeth Cyffredinol yma: http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=CELEX:32002L0022:EN:NOT

[23] Gellir darllen testun Gorchymyn Gwasanaeth Cyffredinol y Llywodraeth yma: http://www.opsi.gov.uk/si/si2003/20031904.htm

cydweithrediad agos â rhanddeiliaid o’r llywodraeth, diwydiant a’r trydydd sector.

1.53 Gyda’n partneriaid Mencap yr ydym wedi datblygu adnodd addysg Llythrennedd yn y Cyfryngau (Switch On!) ar gyfer ymarferwyr sy’n gweithio â phobl ag anawsterau ac anableddau dysgu. Lansiwyd yr adnodd hwn fis Awst. Rydym yn falch bod cymwysterau lefel mynediad Llythrennedd yn y Cyfryngau'r Rhwydwaith Coleg Agored Cenedlaethol (NOCN), a ddatblygwyd mewn partneriaeth gyda NOCN wedi ei gymeradwyo ac ar gael o fis Awst. Dyma’r cymhwyster Llythrennedd yn y Cyfryngau cyntaf ar gyfer pobl ag anawsterau ac anableddau dysgu.

1.54 Ym mis Medi, cyhoeddwyd adroddiad gennym ar “Children’s and young people’s access to online content on mobile devices, games consoles and portable media players”.[24] Ym mis Hydref, cyhoeddwyd adroddiadau interim 2009 gennym ar lythrennedd plant ac oedolion y DU yn y cyfryngau. Yr ydym hefyd wedi cynhyrchu canllawiau ar gyfer rhieni a gofalwyr ar ddiogelu plant mewn byd digidol.[25]

## 6. Trawsrwydweithio symudol mewn argyfwng: Mae trawsrwydweithio symudol mewn argyfwng yn awr ar gael

1.55 Mae trawsrwydweithio symudol mewn argyfwng yn galluogi dinasyddion i wneud galwadau brys lle bynnag mae rhwydwaith symudol ar gael yn y DU, heb fod yn rhaid i’r person sydd angen cymorth fod yn defnyddio’r rhwydwaith arbennig hwnnw.

1.56 Yr ydym yn falch o gyhoeddi bod y gwasanaeth hwn yn awr ar gael i ddinasyddion yn y DU.

1.57 Mae lansiad llwyddiannus trawsrwydweithio symudol mewn argyfwng yn ffrwyth ymdrech ar y cyd gan y gweithredwyr rhwydweithiau symudol, yr awdurdodau argyfwng a’r gweithredwyr sefydlog sy’n gweithredu fel asiantaeth delio â galwadau, a ninnau.[26]

1.58 Mae ehangu pellach ar hygyrchedd y gwasanaethau brys wedi cael ei ysgogi gan y ‘Pwyllgor Cyswllt 999’ [27] ac mae’n destun treial ar hyn o bryd. Mae mynediad mewn argyfwng drwy neges destun (SMS) wedi’i fwriadu ar gyfer defnyddwyr â nam ar eu clyw neu leferydd a fyddai’n ei chael yn anodd gwneud galwadau confensiynol. Rhaid i ddefnyddwyr sydd am ddefnyddio’r gwasanaeth gofrestru ymlaen llaw yma: http://emergencysms.org.uk/

---

[24] http://www.ofcom.org.uk/advice/media_literacy/medlitpub/medlitpubrss/online_access.pdf
[25] [Include link to guides]
[26] Mae gennym oruchwyliaeth reoleiddiol dros weithredu galwadau brys hyd at y pwynt pan mae’r alwad yn cael ei throsglwyddo i’r awdurdod argyfwng.
[27] Mae’r Pwyllgor Cyswllt 999 yn cynnwys yr awdurdodau argyfwng, (heddlu, ambiwlans, tân a gwylwyr y glannau), yr asiantaethau galw ar gyfer galwadau argyfwng, (BT, Cable & Wireless) a darparwyr symudol a sefydlog.

## Blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg. Ardaloedd digyswllt symudol a radio digidol

### Ardaloedd digyswllt symudol

1.59 Mae ein gwaith Mynediad a Chynhwysiant yn canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth uchod, ond nid yw wedi'i gyfyngu i'r rhain yn unig. Un maes lle'r ydym yn dechrau ar waith newydd yw ardaloedd digyswllt ffonau symudol.

1.60 Derbyniodd yr Ymgynghoriad ymateb gan nifer o randdeiliaid a oedd yn bryderus ynghylch cysylltiadau ffôn symudol, ac ardaloedd digyswllt yn fwyaf arbennig.

1.61 Ar 8 Gorffennaf 2009, cyhoeddodd Ofcom 'Mostly Mobile - Ofcom's mobile sector assessment second consultation'.28 1.1 Yr ydym wedi cydnabod yn yr ymgynghoriad fod argaeledd rhwydweithiau symudol ar y cyfan yn dda ond bod materion amrediad yn parhau.

Ar gyfer 3G mae yna wahaniaeth sylweddol rhwng ardaloedd gwledig a threfol a rhwng gwahanol ardaloedd o'r DU

Dyw amrediad 2G ddim yn debygol o ehangu ymhellach 'na beth sydd ar gael heddiw ar sail fasnachol, yn gadael nifer o ardaloedd digyswllt ar draws y DU.

1.62 Mae'r materion sylfaenol yn lleol iawn. Does dim un achos yn uno'r problemau amrediad (nac felly, un ateb safonol).

1.63 Rydym ar fin cychwyn ar waith ymchwil er mwyd cael gwell ddealltwriaeth o achosion ardaloedd digyswllt a'r ansawdd gwasanaeth a ddarparwyd gan rwydweithiau band eang symudol. Byddwn yn gweithio gyda'r darparwyr gwasanaeth symudol a chyrff cyhoeddus i archwilio'r cyfraniad y gallwn wneud i wella amrediad.

1.64 Rydym yn darparu cysylltiadau i safleoedd archwilio amrediad y darparwyr symudol ar ein gwefan (<http://www.ofcom.org.uk/consumer/2009/08/mobile-broadband-coverage-checker>)

## Radio Digidol

1.65 Mae radio digidol yn faes arall a all symud i fyny'n rhestr o flaenoriaethau Mynediad a Chynhwysiant, wrth ystyried cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer troi gwasanaethau radio cenedlaethol a ranbarthol i'r digidol erbyn 2015.[29]

1.66 Yr ydym yn ymgynghori ar hyn o bryd ar oblygiadau'r cynigion ym Mhapur Gwyn Prydain Ddigidol ar ein gwaith o reoleiddio trwyddedu radio digidol.[30]

---

[28] Mae'r ymgynghoriad ar gael yn http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/msa/
[29] Gweler Prydain Ddigidol – Yr Adroddiad Terfynnol, Mehefin 2009, Pennod 3b – Radio: Troi i'r Digidol, http://www.culture.gov.uk/images/publications/digitalbritain-finalreport-jun09.pdf
[30] http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/radio/

## Byddwn yn paratoi diweddariadau rheolaidd ar ein gwaith Mynediad a Chynhwysiant fel rhan o'n hadroddiad Profiad y Defnyddiwr a'r Cynllun Blynyddol Drafft

1.67 Mae'r datganiad hwn yn dod â'n proses ymgynghori a ddechreuwyd ym mis Mawrth 2009 i ben.

1.68 Edrychwn ymlaen at gydweithio'n agos â rhanddeiliaid ar faterion Mynediad a Chynhwysiant. Er mwyn hwyluso'r cysylltiadau hyn, yr ydym wedi cynnwys rhestr o gyhoeddiadau a cherrig milltir arfaethedig yn adran 13 ('Y Camau Nesaf') y datganiad hwn.

1.69 Wrth i'r sector cyfathrebu ddatblygu ac wrth i'n gwaith fynd yn ei flaen byddwn yn parhau i gysylltu â'n rhanddeiliaid ar ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Gwneir hyn drwy ein proses gynllunio flynyddol. Bydd ein cynllun blynyddol ar gyfer 2010/11 yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2009.

1.70 Byddwn yn parhau i adrodd ar effaith ein gwaith Mynediad a Chynhwysiant ar ddinasyddion a defnyddwyr, ac ar ddatblygiad argaeledd, y niferoedd sy'n defnyddio a defnydd effeithiol o wasanaethau cyfathrebiadau drwy ein hadroddiad Profiad y Defnyddiwr.

1.71 Mae'r adroddiad Profiad y Defnyddiwr wedi cynnwys diweddariadau ar ein gwaith Mynediad a Chynhwysiant ers y rhifyn cyntaf yn 2006, ac mae felly'n gyfrwng pwysig i ni ac i randdeiliaid i gadw golwg ar y cynnydd a wneir. Bydd y rhifyn nesaf yn cael ei gyhoeddi hefyd ym mis Rhagfyr 2009.